Llawlyfr Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru

Paratowyd, ar ran yr eglwysi, gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg,
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe,
Abertawe. SA7 0AJ

Rhagfyr 2009

‘Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,' medd yr Arglwydd, 'bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol. Yna galwch arnaf, a dewch i weddïo arnaf, a gwrandawaf arnoch.’

Jeremeia 29: 11-12

Cyflwyniad

Mae'n amser cynhyrfus yn ein hanes! Er ein bod fel Annibynwyr wedi gweld dirywiad mawr dros y 60 mlynedd diwethaf, credwn fod Duw gyda ni o hyd, yn ein gwarchod, a'n hysbrydoli, a'n harwain.

Ni allwn roi'r cyfan o'r bai am yr hyn sydd wedi digwydd ar Dduw, ar amgylchiadau nac ar bobl eraill, oherwydd buom ein hunain yn ddiffygiol, mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Yn awr, dan law Duw, yn enw Iesu Grist ac yn nerth yr Ysbryd Glân, mae'r amser wedi dod i ni roi trefn arnom ein hunain, a hynny trwy ymroi o'r newydd i wasanaethu Duw yn yr oes hon yr ydym yn perthyn iddi.

Mae angen i ni ail-ddarganfod ein hyder, hyfforddi ein hunain a'n gilydd, a bwrw ati i weithio yn ein cymunedau, a thrwy hynny dystiolaethu i fawredd cariad Duw at y byd, a'i ofal drosto.

Mae angen i ni roi heibio'r hen lesgedd, goresgyn rhagfarnau, codi ein pennau a dechrau gweithio, oherwydd ein hargyfwng mwyaf fel eglwysi yw fod cymaint o bobl wedi rhoi heibio'r gwaith, ac wedi bodloni ar segurod naill ai trwy gadw draw oddi wrth pob gweithgarwch Cristnogol neu trwy wrthod ysgwyddo unrhyw cyfrifoldeb ynglyn ag ef.

Mae'n amser i bethau newid, ac felly gwahoddwn chwi, yn unigolion, eglwysi a Chyfundebau, i ymuno yng ngweithgarwch Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru. Mae'n rhaglen gynhyrfus, yn rhaglen bosibl, ac yn rhaglen yr ydym wir ei hangen.

Darllenwch amdani ar y tudalennau hyn, ystyriwch ei chynnwys a'i argymhellion, gweddïwch uwch ei phen, ac ymunwch ynddi, oherwydd mae'r amser wedi dod.

Dyma'r sefyllfa: mae'r amser yn wir wedi dod, ac amser Duw ydyw ar ein cyfer ni.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2009-10

Llywydd
Y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Llandysul

Ysgrifennydd Cyffredinol
Y Parchg Ddr Geraint Tudur, Tŷ John Penri

Swyddog Datblygu Gogledd Cymru
Mr Dylan Owen, Bangor

Ysgrifennydd Gweinyddol
Miss Ann Williams, Tŷ John Penri

Trysorydd
Mr Eifion Griffiths, Llandeilo

Cadeirydd Panel y Rhaglen Datblygu
Parchg Dewi M. Hughes, Clydach

Undeb yr Annibynwyr
Tŷ John Penri
5 Axis Court
Parc Busnes Glanyrafon
Bro Abertawe
ABERTAWE
SA7 0AJ

Rhywbeth i'w gofio

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Datblygu mae angen pwysleisio nad gweithio ar eu pennau eu hunain y mae eglwysi Annibynnol Cymru, ond bob amser mewn cydweithrediad ag enwadau ac undebau eglwysig eraill.

Credwn mai eglwysi Annibynnol mewn perthynas ag eglwysi eraill yw'r traddodiad yr ydym ni yn perthyn iddo.

Daw ysgrifenyddion Undeb yr Annibynwyr, Undeb y Bedyddwyr ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru at ei gilydd yn rheolaidd i drafod gweithgarwch eu heglwysi, i rannu syniadau ac i sicrhau nad ydynt yn dyblygu yn ddiangen waith ei gilydd. Gwneir ymdrech gyson i geisio darganfod ffyrdd o gydweithio, yn lleol ac yn genedlaethol, ac annogir eglwysi lleol i wneud yr un modd.

Mae gan Undeb y Bedyddwyr ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru eu rhaglenni eu hunain, a chredwn fod hynny'n well nac ymdrechu gyda'n gilydd i ddatblygu un rhaglen fawr fyddai'n ceisio cwmpasu holl nodweddion y tri thraddodiad.

Trwy weithredu ar wahân, yn ogystal â gyda'i gilydd, ceir amrywiaeth o gyfleoedd i arbrofi mewn ffyrdd sy'n addas i'r traddodiadau unigol, a hynny gyda phobl sy'n deall y traddodiadau hynny'n drylwyr.

Wrth ystyried y posibiladau gyda'r Rhaglen Datblygu, annogwn eglwysi a Chyfundebau yr Annibynwyr i ystyried y posibiliadau eciwmenaidd, ac i gydweithio, lle bo hynny'n bosibl, gydag eglwysi o draddodiadau eraill.

Rhaglen pwy yw hon?

Pwy sy'n awgrymu fod hon yn 'un arall o raglenni'r Undeb'?

Nid rhaglen yr Undeb mohoni, ond y rhaglen a awgrymwyd gan lu mawr o bobl ac eglwysi ar hyd a lled y wlad. Y cyfan a wnaeth yr Undeb oedd casglu'r awgrymiadau a'u rhoi at ei gilydd mewn modd y gellir eu defnyddio, er mwyn eu rhannu yn ôl i'r eglwysi.

Nid rhaglen yr Undeb yw hon felly, ond 'Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru'.

Siop siarad arall?

Sut fyddwch chi'n ymateb i'r Rhaglen?

Gallwch:

1. **Ei hanwybyddu**, cymryd dim sylw ohoni, efallai am y credwch nad oes dim y gallwch ei wneud. Pwyswn arnoch o leiaf i'w hystyried
2. **Siarad amdani**, ei thrafod yn hir, heb wneud dim.
3. **Weithredu**: siarad â'ch cyd-aelodau, cynnal cyfarfod, gofyn am dîm i ymweld â chi fel eglwys.

O wneud rhif 3,
dyna chi wedi cynnau fflam gobaith!

Pawb sydd am weithredu, bwriwch iddi, a mwynhewch!

Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru

Y Rhaglen Datblygu

Yn eisiau pan fyddo'n nosi – y ddawn
i ddod â goleuni
Duw yn ôl yn ein gwlad ni
i'n dal a'n hysbrydoli.

Beti-Wyn James

Mae chwe elfen i’r Rhaglen Datblygu

**Gall eglwysi fabwysiadu y cyfan ohonynt,
neu un neu ddwy ohonynt,
yn unol â’u hamgylchiadau.**

Dyma’r chwe elfen:

6

1. **Arwain eglwysi i lunio Rhaglenni Datblygu ar eu cyfer eu hunain**
2. **Codi Arweinyddion o fewn yr eglwysi**
3. **Ymestyn allan i’n cymunedau**
4. **Cynhyrchu adnoddau y gall unigolion, eglwysi a Chyfundebau eu defnyddio**
5. **Cytuno ar Raglenni Datblygu ar gyfer Cyfundebau**
6. **Addysgu a hyfforddi ein pobl iddynt fedru cyfrannu gyda’i gilydd i’r gwaith, ac i’r dystiolaeth Gristnogol yn y cyfnod presennol**

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . mai gŵr o Sir Frycheiniog oedd y John Penri y mae swyddfa'r Undeb yn Abertawe wedi ei enwi ar ei ôl?

Fe'i ganwyd ym 1563, yn fab i Meredydd Penry o Gefnbrith ym mhlwyf Llangamarch. Addysgwyd ef ym Mhrifysgolion Caergrawnt a Rhydychen, a'i gonsyrn mawr oedd fod prinder pregethwyr yng Nghymru.

Yr awdur Piwritanaidd

Penderfynodd ysgrifennu, a chan i'w lyfr, *A Treatise containing the Aeqvity of an Hvmble Svpplication*, gythruddo'r awdurdodau eglwysig, cymerwyd ef i'r ddalfa. Ymddangosodd gerbron Llys yr Uchel Gomisiwn, ond cafodd ei ryddhau.

Ym 1588, blwyddyn cyhoeddi Beibl Cymraeg William Morgan, dechreuodd ymddiddori mewn gwasg gudd, rhywbeth oedd yn siwr o arwain at ychwaneg o drafferthion gyda'r awdurdodau.

Yn dilyn cyhoeddi ei ail lyfr, *An Exhortation vnto the Gouernours and people of hir Maiesties countrie of Wales*, yn Ebrill 1588, gwelwyd ymdrech arall i'w gymryd i'r ddalfa, ond nid oedd neb yn gallu dod o hyd iddo! Cyhoeddodd drydydd llyfr, ac wedi i bamffledi dirmygus o Eglwys Loegr ymddangos o'r wasg gudd, dwysaodd yr ymdrech i ddod o hyd iddo.

Ffoi

Ym 1589, penderfynodd Penri mai doeth fyddai iddo ffoi i'r Alban, ond dychwelodd i Loegr ym 1592, ac ymuno â dilynwyr ymneilltuol Henry Barrow yn Llundain. Bradychwyd ei bresenoldeb gan ficer Stepney a daliwyd ef ar 22 Mawrth 1593.

Y diwedd

Ymddangosodd Penri gerbron llys ar 25 Mai 1593, a chyhuddwyd ef o dramgwyddo gofynion Deddf Unffurfiaeth. Defnyddiwyd ei bapurau preifat yn ogystal â'i lyfrau fel tystiolaeth yn ei erbyn.

Dedfrydwyd ef i farw, ac o fewn pedwar diwrnod fe'i crogwyd yn St Thomas-a-Watering, Llundain. Y dyddiad oedd 29 Mai 1593 . Yn 29 oed ar adeg ei farwolaeth, gadawodd John Penri weddw a phedair merch ifanc.

Ystyrir ef yn un o Annibynwyr cyntaf Cymru.

(Seiliedig ar erthygl yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*)

1. Rhaglenni Datblygu i Eglwysi Unigol

Mae llunio Rhaglen Datblygu i Eglwys Unigol yn rhoi cyfle i bobl feddwl o ddirif am ddyfodol yr eglwys y maent yn perthyn iddi.

Mae'n rhoi cyfle i'r eglwys ddefnyddio ei dychymyg, a phenderfynu, dan law Duw, sut y dylai ddatblygu. Ni welwn ddim yn newid oni bai bod eglwysi yn dechrau meddwl o ddifrif, ac yn mentro trwy arbrofi yn hyderus.

Gall llunio Rhaglen ennyn diddordeb newydd ymhlith aelodau, ac arwain pobl i fod yn fwy ffyddlon yng ngweithgareddau'r capel.

Yn rhy aml, gwelir ein heglwysi, a'r capeli y maent yn addoli ynddynt, fel sefydliadau sy'n perthyn i oes sydd wedi darfod.

Er hynny, credwn o hyd fod Cristnogaeth mor berthnasol ag erioed, ac mai rhan bwysig o dasg Cristnogion heddiw yw darganfod ffyrdd o gysylltu â'r bobl sydd o'u cwmpas, a dangos hynny iddynt mewn ffyrdd ymarferol.

Os bydd awydd i lunio Rhaglen Datblygu, gall eglwys ofyn am gefnogaeth a chymorth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

O dderbyn gwahoddiad, bydd yr Undeb yn darparu pobl i helpu i gychwyn y proses, ac i sefydlu'r Rhaglen. Bydd y bobl hyn ar gael i helpu ymhellach, os mai dyna fydd dymuniad yr eglwys.

Pam son am 'eglwysi', ac nid am 'gapeli'?

I Annibynwyr, y 'capel' yw'r adeilad, a'r 'eglwys' yw'r bobl.

Yn y Testament Newydd, nid oes un cyferiad at 'gapel', ond mae llu o gyfeiriadau at 'eglwysi'.

Yr eglwys ei hun fydd yn llunio'r Rhaglen, nid pobl o'r tu allan iddi. Er hynny, mae cael rhywrai o'r tu allan yn bwysig wrth lunio Rhaglen Datblygu, a hynny oherwydd fod pobl o'r tu allan yn gweld pethau'n wahanol i'r bobl sydd ar y tu mewn.

Gall eglwys fydd yn llunio Rhaglen hefyd sefydlu prosiect fydd yn ymwneud â'r gymuned leol. Os bydd yn gwneud hynny, gall wneud cais am grant fechan i hybu'r gweithgarwch.

Mae rhai o eglwysi'r Annibynwyr bellach wedi mentro ar lwybrau newydd. Maent wedi cael hyd i obaith newydd, ac wedi bywiogi wrth wneud.

Trwy ddatblygu sgiliau ei haelodau, gwnaeth eglwys Antioch, Crymych, ymdrech arbennig i alluogi ei hun i gynnal ei thystiolaeth, a pharhau wrth ei gwaith, heb orfod dibynnu ar weinidogion a phregethwyr teithiol.

Aeth eglwys Llwyncelyn, Ceredigion, ati i gasglu awgrymiadau gan yr aelodau ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bu Eglwys Goffa Gwilym Hiraethog yn rhan o'r datblygiadau cyhyrfus a welwyd yn y cyfnod diweddar yn Llansannan, Sir Ddinbych.

O dro i dro, clywir aelodau rhai eglwysi'n dweud nad oes angen Rhaglen Datblygu arnynt. Os yw rhif yr aelodaeth yn codi, a phawb yn weithgar yn y gymuned, yn cynyddu yn y ffydd ac yn loyw eu tystiolaeth am waith Iesu Grist a chariad Duw, yna mae'n bosibl fod hynny'n wir.

Ar y llaw arall, os yw'r aelodaeth yn aros yr un peth neu'n disgyn, a dim ond gweithgarwch diwylliannol yn cael ei gynnal, heb ddim tystiolaeth yn y gymuned am naill ai Iesu Grist na Duw, yna mae angen Rhaglen Datblygu. Dim ond asesiad onest o'u sefyllfa gan yr aelodau all ddangos beth yw gwir gyflwr ac angen eglwys.

Beth yw 'Rhaglen Datblygu i Eglwys Unigol'?

Yn y bôn, cynllun i alluogi'r aelodau eglwys i weinidogaethu i'w gilydd ac i'r gymuned, yw Rhaglen Datblygu Eglwys. Dyma sydd ei angen i'n bywiogi. Ar ben hynny, o lunio Rhaglen, gallwn rannu doniau a helpu ein gilydd. Pa ddrwg all ddod o wneud hynny?

Bydd llunio Rhaglen yn arwain at ymdeimlad newydd o bwrpas ac o werth gweithgarwch Cristnogol, tra ar yr un pryd yn helpu i greu cymdeithas gryfach o fewn yr eglwys.

Ein dyletswydd fel aelodau o eglwys Iesu Grist yw gwneud ein rhan.

Y cam cyntaf, yn aml, yw newid agwedd, a gweld bod angen datblygu i gyfeiriadau newydd er mwyn goroesi, ac er mwyn bod yn fwy gwasanaethgar.

Rhaid edrych ymlaen a chynllunio er mwyn medru gwneud hyn, er mwyn i'n tystiolaeth fel eglwysi fod yn eglur yn y gymuned ac yn yr ardal.

Beth wnawn ni nesaf?

Beth am siarad ymhlith eich gilydd, cynnal cyfarfod, dod i benderfyniad i edrych ar y posibiliadau, ac yna cysylltu â'r Undeb yn Nhŷ John Penri?

Fe welir y cyfeiriad ar glawr y llyfryn hwn.

Dim ond cynllunio ar gyfer y dyfodol yw llunio Rhaglen Datblygu Eglwys.

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . fod Undeb yr Annibynwyr yn gwneud taliadau sylweddol ar ran yr eglwysi i'r Cyngor Ysgolion Sul a'r Panel Diogelwch Cydenwadol?

O ganlyniad mae'r Cyngor yn darparu deunyddiau ar gyfer Ysgolion Sul led-led y wlad, a'r Panel yn gallu gwirio gwirfoddolwyr am ddim.

2. Codi Arweinyddion o fewn Eglwysi

Mae pawb sy'n ymwneud â chapeli Cymru yn gwybod fod prinder mawr o weinidogion, a hynny oherwydd mai dim ond ychydig sydd wedi cynnig ei hunain ar gyfer gwaith y weinidogaeth yn ystod y degawdau diwethaf.

Tra'n gobeithio, ac yn gweddïo, y bydd pobl yn dod i deimlo fod Duw yn eu galw i waith y weinidogaeth, teimlwn na allwn adael yr eglwysi yn ddi-arweiniad. Oherwydd hynny, awgrymwn eu bod yn codi Arweinydd o blith eu haelodau, i arwain yr addoliad unwaith y mis, a gweinyddu'r sacramentau (y cymun a'r bedydd), yn ôl yr angen.

Pan fydd Arweinydd yn cael ei ddewis gan eglwys, bydd yr Undeb, mewn cydweithrediad â'r Cwrdd Chwarter perthnasol, yn darparu mentor i ofalu amdano/amdani. Os bydd angen, bydd yr Undeb yn talu i'r mentor, fel nad yw'r baich yn disgyn ar yr eglwys.

Gwaith Arweinydd

Disgwyllir i'r Arweinydd arwain addoliad yr eglwys unwaith y mis, a datblygu ymwneud yr eglwys â'r gymuned y mae'n bodoli ynddi.

Gan nad yw'r Arweinydd yn weinidog, ni fydd yn gyfrifol am fugeilio'r aelodau; mewn eglwys ddi-weinidog, dylai'r aelodau fod yn bugeilio ei gilydd

Gall eglwysi sydd â gweinidog hefyd ddewis Arweinyddion. Gallant fod o gymorth i'r gweinidog, ac ysgafnhau ei faich. Mewn gofalaeth, gall Arweinydd fod yn gyfrifiol am wasanaeth mewn un man tra bod y gweinidog yn arwain gwasanaeth mewn man arall.

Bydd y mentor fydd yn gofalu am ddatblygiad a chynnydd yr Arweinydd wrth law i wneud hynny am flwyddyn. Wrth i'r cyfnod ddirwyn i ben, bydd yn rhaid i'r eglwys benderfynu a yw am barhau gyda'r trefniant neu ei derfynu.

Ar y blaen . . .

Mae dwy eglwys eisoes wedi camu ymlaen a gwahodd pobl i fod yn Arweinyddion iddynt.

Penderfynodd Capel y Nant, yng Nghwm Tawe, estyn gwahoddiad i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes, gweinidog wedi ymddeol, i'w harwain.

Penderfynodd eglwys Llwyncelyn yng Ngheredigion, roi gwahoddiad i'r Dr Dafydd Tudur, gŵr ifanc yn ei 20au, sydd mewn swydd amser-llawn y tu allan i'r eglwys.

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . fod bod yn Arweinydd yn un o'r doniau ysbrydol sy'n cael eu rhestru yn y Testament Newydd?

Yn Rhufeiniaid 12:8, mae Paul yn dweud,

'Os wyt yn rhannu ag eraill, gwna hynny gyda haelioni; os wyt yn arweinydd, gwna'r gwaith gydag ymroddiad; os wyt yn dangos tosturi, gwna hynny gyda llawenydd.'

Bydd yn bosibl i eglwys ddewis mwy nac un Arweinydd, ond yn y sefyllfa honno bydd disgwyl iddi gyfrannu tuag at gydnabod gwaith y mentor.

Gall yr Arweinydd fod yn ddiacon neu yn unrhyw aelod arall. Gall fod yn wryw neu'n fenyw. Yr unig gymhwysterau angenrheidiol yw'r gallu i arwain, a'r ffaith fod yr unigolyn wedi ei ddewis gan ei gyd-aelodau.

Sut mae dewis Arweinydd?

Dylai aelodau eglwys fod yn ofalus wrth ddewis Arweinydd.

Y mae'n dasg sydd angen ei chyflawni'n weddïgar ac yn ddoeth. Mae dau gwestiwn pwysig i'w gofyn:

1. **A oes gan yr unigolyn dan ystyriaeth y doniau angenrheidiol i arwain addoliad yr eglwys, ac i bontio rhwng yr eglwys a'r gymuned o'i chwmpas?**
2. **A yw'r unigolyn dan ystyriaeth yn dderbyniol i'r mwyafrif llethol o aelodau'r eglwys, ac a fydd yn dderbyniol gan y gymuned?**

Cyn cynnig enw i'r eglwys, o bosibl y byddai'n dda o beth trafod y dewis gyda Gweinidog lleol neu gynrychiolydd o'r Undeb, er mwyn cael barn wrthrychol. Ni all hynny ond cryfhau y proses o ddewis.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'Arweinydd' a 'Gweinidog'?

Mae sawl gwahaniaeth.
Dyma rai ohonynt.

- Mae Gweinidog yn cael ei alw gan eglwys i weithio yn eu plith. Mae Arweinydd yn cael ei ethol yn fewnol.
- Mae bod yn Weinidog yn swydd lawn-amser neu ran-amser. Gwirfoddoli fydd yr Arweinydd, ac ni fydd ond yn cael ei dalu am yr oedfa y bydd yn harwain ar y Sul, fel pob pregethwr gwâdd. Bydd pob gweithgarwch arall yn wirfoddol ac am ddim.
- Ni fydd Arweinydd yn bugeilio'r aelodau fel y bydd Gweinidog yn gwneud.
- Bydd Gweinidog yn derbyn hyfforddiant academaidd i'w gymhwyso ar gyfer ei waith; hyfforddiant ymarferol fydd yr Arweinydd yn ei dderbyn.
- Ni fydd Arweinydd yn cael gweinyddu'r sacramentau ond i'r gynulleidfa y bydd yn aelod ohoni. Ni fydd yn cael mynd o gapel i gapel fel pe byddai'n Weinidog.

Beth wnawn ni nesaf?

Beth am drafod ymhlith eich gilydd pa aelodau sy'n dangos dawn arwain, ac a fyddai'n addas ar gyfer arwain yr aelodau yn eu haddoliad?

Os nad ydych yn siwr sut i fynd ati i wneud hynny, beth am gysylltu â Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb? Sut mae gwneud hynny? Gweler tudalen 22!

3. Ymestyn allan i'n cymunedau

Mewn llawer man erbyn hyn, datblygodd capeli yn ynysoedd dieithr i'r bobl sy'n byw yn y cymunedau o'u cwmpas.

Mae llai a llai o bobl yn gwybod beth sy'n digwydd mewn capel. O bosibl eu bod yn gwybod am Gymanfa Ganu, am briodas neu am angladd, ond nid yw'r pethau hyn yn nodweddiadol o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Am nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd, mae llawer o bobl yn amharod i ddod i mewn i gapeli.

Mae'n rhaid i ni sylweddoli, felly, er cymaint y gobeithiwn y bydd pobl rhyw ddydd yn dod yn ôl i'r capel, na fydd hynny'n digwydd heb i ni newid y ffyrdd yr ydym yn gwneud pethau.

Wrth reswm, bydd yn rhaid i bob eglwys benderfynu drosti ei hun sut y mae am wneud hyn, ond bydd yr Undeb wrth law i roi help i unrhyw gynulleidfa fydd yn awyddus i ddechrau trafod sut y mae pontio i'r gymuned sydd o'i chwmpas.

Glywsoch chi'r stori . . .

. . . am y fam ifanc oedd wedi ei gwahodd i ddod i gapel i weld ei phlentyn yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Diolchgarwch?

Yr oedd y gweinidog yn sefyll yn y cyntedd, yn croesawu pobl i'r gwasanaeth, pan ddaeth y fam i fyny'r grisiau at y drws.

Wrth iddi gyrraedd, safodd wrth y rhiniog: yr oedd y gweinidog y tu mewn, a hithau y tu allan.

Estynnodd y gweinidog ei law iddi, ac wedi cydio yn ei law, meddai'r fam wrtho, ''Does gennych chi ddim syniad pa mor fawr yw'r cam nesaf i mi!'

A gydag ochenaid fawr, camodd i mewn i'r capel.

Amrywiaeth

Nid yw'n bosibl awgrymu un cynllun ar gyfer yr holl eglwysi, oherwydd y mae amgylchiadau pob eglwys yn wahanol. Mae rhai capeli allan yn y wlad, eraill mewn pentrefi, eraill wedyn mewn trefi neu ddinasoedd. Mae rhai ohonynt filltiroedd oddi wrth y capel nesaf, eraill yn yr un stryd ag adeilad sy'n perthyn i enwad arall.

Egwyddorion sylfaenol

Nid yw dweud hynny yn cau allan y posibilrwydd fod rhai egwyddorion sylfaenol y gellir eu cymhwyso i bob sefyllfa. Er enghraifft, pan fyddwn yn ymestyn allan i'n cymunedau, dylem wneud hynny fel Cristnogion, ac yn enw Iesu Grist, yn hytrach nac yn enw'r capel. Iesu Grist, a'r hyn a gyflawnodd, yw'r rheswm am ein bodolaeth, nid y ffaith ein bod yn berchen adeilad sydd wedi ei ymddiried i'n gofal gan ein cyndadau.

'Mae gofyn i ni sylweddoli fod yn rhaid i ni *haeddu* cael ein gwrando. Nid yw pobl yn mynd i'n derbyn, na derbyn yr hyn yr ydym yn ei ddweud, yn unig oherwydd mai ni sydd yn ei ddweud!

Er mwyn medru pontio i'r gymuned, mae gofyn i ni sylweddoli fod yn rhaid i ni *haeddu* cael ein gwrando. Nid yw pobl yn mynd i'n derbyn, na derbyn yr hyn yr ydym yn ei ddweud, yn unig oherwydd mai ni sydd yn ei ddweud! Rhaid i ni *haeddu* cael ein gwrando gan bobl trwy ddangos fod gennym ofal dros y gymuned yr

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . fod yr Apostol Paul yn priodoli llwyddiant ei waith i allu Duw, a'r hyn yr oedd Ef yn ei wneud, yn hytrach nac i'w allu ei hun?

Meddai wrth y Cristnogion yn Rhufain,

'Oherwydd ohono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth. Iddo ef y bo'r gogoniant am byth! Amen.'

(Rhufeiniaid 11:36)

ydym yn byw ynddi, a thros y bobl sy'n rhan ohoni, beth bynnag yw eu hamgylchiadau, beth bynnag eu sefyllfa.

Nid yw hynny'n mynd i ddigwydd dros nos. Proses, felly, yw pontio i'r gymuned yn hytrach na digwyddiad. Gall olygu y bydd angen sefydlu prosiect (ac fel rhan o'r Rhaglen Datblygu, bydd grantiau ar gael i wneud hynny), neu drefnu gweithgarwch elusennol cyson, neu gymryd diddordeb yn amgylchiadau anodd rhai pobl yn y gymuned. Yn aml iawn, yr ydym yn cael hynny'n beth anodd i'w wneud, am ein bod wedi arfer cael pobl 'tebyg i ni' yn y capel.

Agor y drws

Os ydym am wneud yr hyn yr oedd Iesu yn ei wneud, sef derbyn pobl fel ag yr oeddent, yna gall 'ymestyn allan i'r gymuned' olygu agor y festri a chaniatau i bobl ddieithr ddod i mewn. Mewn rhai mannau, gallai hefyd olygu wynebu mai cymuned ddi-Gymraeg sydd o'n cwmpas, ond y dylem, er hynny, fod yn ymwneud â hi. Ym mha ffordd y byddem yn gwneud hynny, tra ar yr un pryd yn cadw ein hunaniaeth fel Cymry Cymraeg?

Medru sôn am ein Cristnogaeth

Yn y gorffennol, yr oedd aelodau eglwysi yn gwybod sut i ddefnyddio digwyddiadau a gweithgarwch fel dulliau i genhadu yn eu cymuned. Yr oeddent yn gwybod sut i ddod â gwaed newydd i mewn, a sut i rannu eu Cristnogaeth er mwyn gwneud hynny.

Erbyn hyn, mae'r doniau hynny wedi eu colli, a phrin yw'r bobl sy'n gwybod sut mae rhannu eu ffydd â phobl eraill. Nid mater ydyw o wahodd rhywun i 'ddod i'r capel'; sôn yr ydym am fedru siarad yn glir a didwyll am ein perthynas â Duw, ac â Iesu Grist. Mae'r mwyafrif o'n pobl yn cael trafferth i wneud hynny.

Beth wnawn ni nesaf?

Beth am drafod pa ddoniau y byddech yn hoffi eu gweld yn cael eu datblygu yn eich eglwys? Beth hefyd am drafod ym mha ffyrdd y gallai eich eglwys chwi adeiladu pont i'r gymuned o'i chwmpas?

Wedi gwneud hynny, beth am gysylltu â Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb? Sut mae gwneud hynny? Fe geir y manylion ar dudalen 22.

Dyna beth braf fyddai medru siarad am Iesu heb deimlo'n swil, dweud rhywbeth am y Beibl heb ofni ymddangos yn od, a sôn am y bywyd Cristnogol heb swnio'n hunan-gyfiawn! Credwch neu beidio – mae'n gwbl bosibl, dim ond i ni gael ychydig o ymarfer!

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . fod Undeb yr Annibynwyr yn trefnu sesiynau er mwyn i aelodau eglwysi fedru datblygu eu sgiliau? Gweler tudalen 22.

4. Darparu adnoddau

Ymhob cyfnod, mae eglwysi wedi bod angen adnoddau er mwyn sicrhau datblygiad a chynnydd. Ar un amser, yr oeddent yn gallu dibynnu ar adnoddau dynol i gyhoeddi'r Efengyl. Yna, gwnaethpwyd defnydd o gelfyddyd, yn luniau a cherfluniau, i helpu yn y gwaith. Wedi hynny, daeth y llyfr a deunydd oedd wedi ei argraffu, a hwnnw yw'r cyfrwng y mae'n traddodiad ni wedi bod fwyaf cyfarwydd ag ef dros y blynyddoedd.

Ar un amser yr oedd gan yr Annibynwyr eu gwasg eu hunain, Gwasg Tŷ John Penri, ond erbyn hyn y mae'r wasg honno wedi mynd.

Un o'r rhesymau am hynny oedd fod nifer y bobl sy'n darllen llyfrau Cristnogol Cymraeg wedi disgyn yn sylweddol. Nid oedd y farchnad y gynaladwy bellach, a daeth y gwaith argraffu i ben.

Er hynny, o gymryd yr enwadau Cymraeg gyda'i gilydd, mae'r niferoedd sy'n darllen llyfrau Cristnogol yn ddigon i gadw *Cyhoeddiadau'r Gair*, adain gyhoeddi y Cyngor Ysgolion Sul, yn brysur. Dyma wedd arall o'r gwaith cydenwadol y mae Undeb yr Annibynwyr yn falch o fod â rhan ohono.

Lle gynt bu darllen . . .

Ar draws pob diwylliant yn y byd Gorllewinol, gwelwyd llai o bwyslais ar ddarllen llyfrau yn y cyfnod diweddar, a hynny, o bosibl, oherwydd fod cystadleuaeth wedi ymddangos gan gyfryngau sydd yn gallu cael eu clywed a'u gweld, disgyblaeth lawer haws na darllen! Mewn gair, daeth oes y fideo, y Disgiau Fideo Digidol (DVDs), Cryno-ddisgiau (CDs) a'r We Fyd-eang.

Hyd yma, nid ydym, fel Cristnogion Cymraeg eu iaith, wedi mentro yn bell iawn i'r maes technolegol newydd a modern hwn, ond daeth yr amser i ni wneud hynny.

Y bwriad, felly, yw cael yr offer a'r adnoddau angenrheidiol i fedru creu deunyddiau y bydd unigolion, eglwysi, a Chyfundebau yn gallu eu defnyddio i adeiladu eu hunain yn y ffydd. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr ag unrhyw waith cyhoeddi llyfrau fydd yn digwydd, ac nid yn ei le.

Wrth reswm, er mwyn medru gwireddu'r bwriad hwn bydd yn rhaid dod o hyd i wirfoddolwyr fydd yn barod i dderbyn hyfforddiant ar sut mae defnyddio'r offer. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i nifer o bobl sydd naill

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . mai ystyr 'Annibynnol' wrth ddisgrifio eglwys yw 'annibynnol oddi wrth ymyrraeth y llywodraeth neu'r goron'?

Nid oes a wnelo'r gair unrhyw beth â pheidio gwrando ar bethau y mae pobl nad ydynt yn aelodau o'r eglwys yn eu dweud.

Pe byddai hynny'n wir, ni fyddai neb wedi gwrando ar yr Apostol Paul!

ai wedi gweithio, neu sydd ar hyn o bryd yn gweithio, i'r cyfryngau am gynnig o'u hamser a'u harbenigedd i baratoi tîm cymwys ar gyfer cyflawni'r gwaith.

Unwaith y bydd hynny wedi digwydd, byddwn yn medru paratoi disgiau fideo a sain ar gyfer pobl o bob oed, ac wrth i'e we fyd-eang ddatblygu, eu defnyddio ar honno. Yn hyn o beth, bydd eglwysi'r Annibynwyr yn arloesi, yn torri tir newydd ymhlith eglwysi Cymru.

Y wedd gyd-enwadol

Ar yr un pryd, mae prosiect digidol cydenwadol, y mae eglwysi'r Undeb yn rhan ohono, sy'n datblygu'n raddol. Daeth yr Annibynwyr, y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr at ei gilydd i drafod y posibiliadau, a chytuno i rannu'r maes fel bod yr Annibynwyr yn datblygu maes fideo.

Ar ben hyn, mae enwadau eraill, o glywed beth y mae'r Annibynwyr yn ei wneud, wedi cysylltu i holi beth yw'r tebygolrwydd o gael defnyddio'r adnoddau newydd i hyrwyddo eu gweithgarwch hwy. Yr amlycaf ohonynt yw'r Gynghrair Gynulleidfaol (*Congregational Federation*), a bydd cydweithio â hwy yn ddatblygiad y bydd yr Undeb yn ei groesawu.

Prosiect Adnoddau Digidol y Rhaglen Datblygu

Prin fod angen dweud y bydd y prosiect hwn, oherwydd ei natur technegol ac arbenigol, yn cael ei weinyddu o Dŷ John Penri.

Beth wnawn ni nesaf?

Bydd angen i eglwysi a chyfundebau wneud dau beth:

1. **Ystyried a oes unrhyw rai yn eu plith y byddai ganddynt yr arbenigedd a'r diddordeb i helpu gyda'r prosiect hwn. Yr ydym yn chwilio am gynhyrchwyr, pobl camera, pobl sain, sgriptwyr, cyflwynwyr, golygyddion, i enwi dim ond rhai o'r sgiliau angenrheidiol. Gofynnwch iddynt a fyddent yn fodlon helpu yn y prosiect?**
2. **Ystyried a oes unrhyw rai yn eu plith y byddai ganddynt ddiddordeb mewn dysgu'r sgliau uchod. Gall unrhyw un dros 16 oed gymryd rhan, os byddant yn dangos doniau cymwys. Bydd angen iddynt fod yn barod i roi o'u hamser wedi iddynt gael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sgiliau newydd.**

Wedi gwneud hyn, gallwch gysylltu â'r Undeb yn Nhŷ John Penri. Rhagwelir na fydd y prosiect hwn yn weithredol tan tua'r Pasg, 2010.

5. Rhaglenni Datblygu ar gyfer Cyfundebau

Mae gan yr Annibynwyr Cymraeg bymtheg o Gyfundebau gweithredol yng Nghymru a Lloegr. 'Cyfundeb' yw casgliad o eglwysi mewn perthynas a'i gilydd, yn helpu ei gilydd i hyrwyddo'r gwaith a'r dystiolaeth Gristnogol o fewn eu hardal.



Gellir rhannu'r Cyfundebau rhwng gogledd a de Cymru.

Ystyrir y canlynol fel **Cyfundebau'r Gogledd**:

Dwyrain Dinbych a Fflint	**Gorllewin Dinbych a Fflint**
Gogledd Arfon	**Môn**
Llŷn ac Eifionydd	**Meirion**
Trefaldwyn	

Ystyrir y canlynol fel **Cyfundebau'r De**:

Ceredigion	**Penfro**
Gorllewin Caerfyrddin	**Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog**
Gorllewin Morgannwg	**Dwyrain Morgannwg**
Gogledd Morgannwg a Mynwy	**Llundain**

Ychydig o hanes

Cafodd y Cyfundebau eu llunio gan yr eglwysi cyn i'r penderfyniad gael ei wneud i sefydlu'r Undeb ym 1871. Mae'r Cyfundebau, felly, yn unedau ac iddynt eu hanes a'u hurddas ei hunain. Eu pwrpas oedd trefnu'r genhadaeth Gristnogol Annibynnol oedd yn digwydd yng Nghymru yn y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, ond yn yr ugeinfed ganrif newidiodd y pwyslais, a daethant yn fodd i edrych ar ôl yr eglwysi a'u gweinidogion.

Dylai pob eglwys Annibynnol berthyn i'r Cyfundeb lleol. Dylai cynrychiolwyr hefyd fod yn mynd i bob Cwrdd Chwarter. Y duedd, pan gyfyd problemau, yw peidio â mynd, ond dyna pryd y mae eglwysi bychain, bregus, fwyaf angen help a chyngor yr eglwysi cryfach.

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . fod yr enw 'Cwrdd Chwarter' yn dod o'r amser pan yr oedd eglwysi'r amrywiol Gyfundebau yn cyfarfod bob tri mis i drefnu eu gwaith?

Yr oeddent, felly, yn cyfarfod pob 'chwarter' blwyddyn.

Posibiliadau ar gyfer y dyfodol

Fel rhan o'r Rhaglen Datblygu, yr ydym yn annog y Cyfundebau i feddwl yn fwy creadigol am eu gwaith, ac i feddwl beth allai'r eglwysi ei wneud gyda'i gilydd er mwyn gloywi'n tystiolaeth a hybu ein cenhadaeth.

Er enghraifft, gellid dod â chylch o eglwysi at ei gilydd dan nawdd y Cyfundeb i weithio ar brosiect arbennig. Gallai'r prosiect groesi'r ffiniau enwadol, ble bynnag y bydd hynny'n bosibl, a chryfhau'r dystiolaeth trwy gydweithio â chynulleidfaoedd o enwadau eraill. Gallai'r prosiect fod yn un cenhadol, cymunedol neu amgylcheddol, ac yn dystiolaeth glir fod eglwysi'r ardal yn fyw ac yn ymwybodol o anghenion lleol.

Mae gwir angen y newid hwn arnom. Aeth pobl i feddwl fod eglwysi allan o gysylltiad â'r byd modern, yn ymylol ac yn ddifywyd. Mae angen dangos nad yw hynny'n wir. Trwy edrych y tu hwnt i furiau ein capeli, a bod yn fodlon gweithio gyda phobl heb osod amodau afresymol arnynt, gallwn newid agweddau llawer tuag atom. Cofier mai dyna a wnaeth Iesu Grist; gweithio ymhlith pobl oedd yn wrthodedig gan y sefydliad crefyddol, a'u croesawu fel ag yr oeddent.

Ni fydd dechrau prosiect yn golygu na fydd angen i eglwysi'r Cyfundeb ofalu am ei gilydd. Yn ddiweddar, awgrymodd un a gyfrannodd i'r *Tyst* (papur wythnosol yr Annibynwyr) mai da o beth fyddai i'r Cyfundebau sefydlu cynllun fyddai'n gofalu am yr eglwysi bregus hynny sy'n nesu at ddiwedd eu hoes. Bydd aelodau yr eglwysi hynny angen cymorth, arweiniad a chysur wrth iddynt wynebu cyfnod arbennig o anodd yn eu hanes. Byddai o fewn gallu'r Cyfundeb i wneud hyn.

O ystyried cyflwr llawer o'n tiroedd agored cyhoeddus, mae nifer o brosiectau amgylcheddol y gallasai eglwysi eu trefnu. Gallai rhai ddechrau gyda'u mynwentydd eu hunain, a'u twtio a'u harddu.Mewn rhai ardaloedd hefyd, mae mannau fel meysydd chwarae plant, neu barciau, mewn mawr angen eu clirio o'r sbwriel sy'n eu hagru. Onid priodol fyddai i Gristnogion wneud hynny, er mwyn y gymuned, ac er mwyn dangos eu gofal dros y cread?

Glywsoch chi . . .

. . . am y Cristion hwnnw oedd yn teithio ar drên yn India?

Yn sydyn, gofynnodd un o'i gyd-deithwyr iddo, 'Sut y mae pethau rhyngoch chi a Duw y dyddiau hyn?'

Aeth y ddau i sgwrsio.

Mwslim oedd y dyn, ond y cwestiwn i'w ofyn yw, pryd fu i chwi ofyn y fath gwestiwn i rywun ddiwethaf?

Nid oes yn rhaid i'r prosiectau fod yn rhai mawrion; mae gweithredoedd bychain yn gallu llefaru yr un mor uchel a'r rhai mwy. Yr hyn sydd ei angen yw i bobl fwrw iddi, er mwyn gwneud gwahaniaeth yn eu hardal a'u bro.

Mewn rhai mannau, bydd angen arian i sefydlu prosiect. Os bydd y prosiect yn rhan o'r Rhaglen Datblygu, bydd grantiau bychain i'w cael i hyrwyddo'r gwaith. Dylid gwneud cais am y grant drwy'r Cyfundeb ac ar ffurflenni sydd i'w cael o Dŷ John Penri.

Bydd unrhyw brosiectau fydd yn cael eu sefydlu gan Gyfundeb yn amrywio o ardal i ardal. Bydd prosiect pentref yn wahanol i brosiect tref neu ddinas. Bydd rhai yn fwy nac eraill, ond pwysleisir eto nad maint y prosiect fydd yn bwysig, ond ei werth i'r gymuned, a'i werth fel tystiolaeth Gristnogol.

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . fod yr Annibynwyr wedi cyhoeddi 'Pecyn Amgylcheddol' fel rhan o Raglen AGAPE (2005-07).

Yr oedd gwneud hynny'n gam arloesol arall yn ein hanes. Mewn cynhadledd ym Malaysia ym mis Hydref 2009, gofynnodd nifer o enwadau mewn gwahannol rannau o'r byd am ganiatâd i gyfieithu'r pecyn er mwyn medru ei ddefnyddio yn ei gwledydd eu hunain.

Pwy sy'n dweud fod yr Annibynwyr allan o gysylltiad â phroblemau'r byd, ac yn gwneud dim?

Ar y blaen

Bu eglwysi ardal Dolgellau yn cydweithio ar draws y ffiniau enwadol i gynnal gweithgarwch 'Bwrlwm Bro' yn yr awyr agored.

Ar adeg y gwyliau Cristnogol, mae'r 'Bwrlwm' wedi bod yn fodd i atgoffa pobl leol o arwyddocâd y gwyliau.

Enghraifft dda o dystiolaeth effeithiol gan eglwysi sy'n cydweithio â'i gilydd. Yr oedd hefyd yn sbort!

Sut mae bwrw iddi?

Cofier mai cynrychiolwyr o'r eglwysi sy'n mynd i'r Cwrdd Chwarter, a bod hawl gan unrhyw un i wneud awgrym yno.

Byddai'n fanteisiol, wrth reswm, i siarad gyda swyddogion y Cwrdd Chwarter neu rai o'r gweinidogion cyn y cyfarfod; yn amlach na heb, byddent yn falch o glywed syniadau newydd ac o gael cyfle i'w trafod mewn cyfarfod agored.

Mae awydd mawr yn ein plith erbyn hyn i weld pethau'n bywiogi, a phwy a ŵyr nad yw Duw yn rhoi arweiniad i'r eglwysi trwyddoch chwi? Byddwch hyderus, felly, a defnyddiwch y Cwrdd Chwarter fel arf yn y gwaith Cristnogol yn eich Cyfundeb chwi.

Yno i hyrwyddo'r gwaith y mae, nid i'w atal!

Beth wnawn ni nesaf?

Trefnu fod trafodaeth yn cael ei chynnal yn y Cwrdd Chwarter ar y ffordd orau i fywiogi tystiolaeth y Cyfundeb.

Oeddech chi'n gwybod . . .

1. . . . fod y penderfyniad i sefydlu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi ei wneud ym 1871, a bod y cyfarfod blynyddol cyntaf wedi ei gynnal yng Nghaerfyrddin ym 1872?
2. . . . fod Gwilym Hiraethog, y Llywydd cyntaf, wedi dewis 'Satan' fel teitl i'w anerchiad o'r gadair? Man cychwyn annisgwyl i Undeb Cristnogol!
3. . . . mai'r unig bethau i dorri ar rediad y Cyfarfodydd Blynyddol oedd y ddau Ryfel Byd a Streic Gyffredinol? Ni chafwyd cyfarfodydd ym 1917, 1918, 1926 (blwyddyn y streic), na 1940.
4. . . . fod Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb wedi eu cynnal y tu allan i Gymru bump o weithiau; dair gwaith yn Lerpwl (1879, 1897 a 1912) a dwywaith yn Llundain (1898 a 1937)?
5. . . . mai Abertawe (os ydym yn cyfrif Treforus yn Abertawe) yw'r man sydd wedi gwahodd Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb amlaf dros y blynyddoedd? Cawsant eu cynnal yno 8 gwaith! Buont yng Nghaerdydd, Caernarfon a Chaerfyrddin 6 o weithiau yr un hefyd.
6. . . . fod Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb wedi ymweld â 64 o wahanol bentrefi, trefi, dinasoedd neu ardaloedd yn ystod ei hanes?
7. . . . fod cymaint â 31 o fannau wedi gwahodd cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb dim ond unwaith?
8. . . . mai'r teitl hiraf i Anerchiad y Llywydd yn holl hanes yr Undeb yw hwnnw a roddwyd i anerchiad y Parchg Robert Roberts, Rhos, ym Mhontarddulais yn 1909? Y teitl oedd, 'Fod Meithrin Ysbryd Cenhadol yn hanfodol i Lwyddiant Gartref ac Oddi Cartref' (65 llythyren).
9. . . . mai y teitlau byrraf oedd rhai Gwilym Hiraethog ('Satan' (1872), 5 llythyren), a'r Parchg Joseph James yn y Bala yn 1951 ('Cymod', 5 llythyren).
10. . . . fod 20 mlynedd wedi gorfod mynd heibio cyn i rywun nad oedd yn weinidog gael bod yn Llywydd yr Undeb? Bu'n rhaid aros am 112 o flynyddoedd cyn y cafwyd gwraig yn Llywydd, sef Mrs Hilda M. Ethall, ym 1984.
11. . . . fod 450 o eglwysi yn perthyn i'r Undeb, a dros 80 o weinidogion yn cael eu rhestru ym *Mlwyddiadur* 2009?
12. . . . mai 4 gweithiwr llawn-amser sydd gan yr Undeb (2009), a 3 rhan-amser?
13. . . . fod gweithgareddau'r Undeb yn cael eu rheoli gan gynrychiolwyr o'r eglwysi a'r Cyfundebau? Maent yn dod at ei gilydd yn y Cyngor (sy'n cyfarfod bob Hydref a Mawrth), yn y Pwyllgor Gweinyddol (sy'n cyfarfod ym misoedd Tachwedd a Mai) ac yn y Cyfarfodydd Blynyddol (sy'n cael eu cynnal ym mis Mehefin neu Orffennaf).
14. . . . fod yr Undeb wedi cael 63 o Ysgrifenyddion Cyffredinol hyd yma? Dwy neu dair blynedd oedd hyd tymor y mwyafrif ohonynt tan 1927.
15. . . . for yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn awr yn cael ei ethol am dymor o 7 mlynedd?
16. . . . fod Llywyddion yr Undeb wedi bod yn cael eu hethol yn flynyddol hyd 2009. Yn y flwyddyn honno, dechreuwyd ar drefn newydd o ethol y Llywydd am ddwy flynedd.

6. Addysg a Hyfforddiant

'Y Coleg Gwyn' ym Mangor. Fel 'Coleg y Bedyddwyr' yr oedd yn cael ei adnabod cyn ei adnewyddau rai blynyddoedd yn ôl.

Byth oddi ar sefydlu Rhaglen AGAPE yn 2005, mae hyfforddwyr y tri phrif enwad Cymraeg - yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid - wedi bod yn cydweithio'n glos, a hynny o'r un adeilad ym Mangor, yr un a elwir yn 'Goleg Gwyn'.

Wrth i'r Rhaglen Datblygu fynd rhagddi, bydd y trefniant hwn yn parhau, ac eglwysi Annibynnol Cymru yn dibynnu'n drwm ar y tri hyfforddwr i ddarparu'r cyrsiau angenrheidiol ar eu cyfer.

Gwaith yr hyfforddwyr

Ar un adeg, dim ond paratoi ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth yr oedd y colegau diwinyddol enwadol, er bod ambell i gyfarfod yn cael ei gynnal o dro i dro ar gyfer swyddogion eglwysi.

Erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi newid, ac er bod darpariaeth lawn yn dal i gael ei gwneud ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth (o bob oed), y mae hefyd ddarpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hyfforddi Pregethwyr Cynorthwyol ac aelodau eglwysi.

Cyn i'r protestio gychwyn . . .

. . . cydnabyddwn yn llawen nad 'enwadau' mo'r Annibynwyr na'r Bedyddwyr, ond 'Undebau' o eglwysi ac unigolion!

'Llaw fer' yw defnyddio'r gair 'enwad', i ddynodi casgliad o eglwysi ac undebau o bob math.

Y Parchg Euros Wyn Jones, Undeb yr Annibynwyr

Y Parchg Ddr Elwyn Richards, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Y Parchg Ieuan Elfryn Jones, Undeb y Bedyddwyr

Y tri hyfforddwr

Cyrsiau

Gall cyrsiau arwain at Dystysgrif, at Ddiploma neu at radd Prifysgol Cymru. Ar y llaw arall, gellir gwneud rhai cyrsiau heb ennill cymhwyster ffurfiol o gwbl, er enghraifft,

pan fo aelod eglwys â diddordeb mewn rhyw bwnc arbennig. Gall eistedd mewn dosbarth ochr yn ochr â'r myfyrwyr i wrando a dysgu.

Tybed . . .

. . . a oes gennych ddiddordeb mewn bod yn weinidog? A ydych yn teimlo Duw yn eich galw i'r gwaith? Os ydych, pam ydych yn dal yn ôl?

Os ydych yn meddwl fod rhywbeth yn eich rhwystro rhag cael bod yn weinidog, cysylltwch ar unwaith ag Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, y Parchg Ddr Geraint Tudur. Cewch sgwrs gyfrinachol ag ef, a bydd yn fodlon ateb eich cwestiynau.

Cysylltwch ag ef heddiw, yn gwbl gyfrinachol. Ffoniwch 07909-976908.

Angen mawr eglwysi Cymru ar hyn o bryd yw gweinidogion amser llawn, pobl wedi eu galw gan Dduw ac wedi eu cymhwyso a'u hyfforddi ar gyfer gwaith y weinidogaeth.

Pregethwyr Cynorthwyol

Mae angen hefyd am bregethwyr achlysurol, i gyhoeddi'r Efengyl pan na fo gweinidog ar gael.

Ni ddylid caniatau i neb fynd i bulpud i bregethu heb sicrwydd ei fod yn gymwys ar gyfer y gwaith, a dyna pam y mae trefn cydnabod 'Pregethwyr Cynorthwyol' wedi ei rhoi yn ei lle.

Cydnabyddir fod amryw o bregethwyr clodwiw yn cynorthwyo eglwysi ar y Sul nad ydynt eto wedi cael eu cydnabod yn Bregethwyr Cynorthwyol gan eu Cyfundebau. Anogir hwy yn daer i gael eu cydnabod, er mwyn i'r eglwysi wybod ymlaen llaw eu bod wedi derbyn cymeradwyaeth eu cydaelodau, ac eglwysi'r Cyfundeb y maent yn perthyn iddo.

Gellir cael gwybodaeth am fanylion y cyrsiau trwy gysylltu â'r Parchg Euros W. Jones yn y Coleg Gwyn ym Mangor. Rhif y teleffon yno yw 01248-372500.

Trefn Cydnabod Pregethwyr Cynorthwyol

Caiff y sawl sy'n dymuno cael ei gydnabod fel Pregethwr Cynorthwyol ei gyflwyno i Gynhadledd y Cwrdd Chwarter perthnasol gan yr eglwys y mae'n aelod ohoni, a bydd disgwyl iddo/iddi bregethu 'ar brawf' mewn tair eglwys wedi hynny.

Os cymeradwyir ef/hi gan yr eglwysi hynny, caiff ei drosglwyddo i Goleg yr Annibynwyr i ddilyn cwrs hyfforddiant byr. Wedi cwblhau'r cwrs, caiff ei gyfweld gan ddau weinidog o'r Cyfundeb mae'n perthyn iddo er mwyn sicrhau addasrwydd yr Ymgeisydd ar gyfer y gwaith.

Gyda chymeradwyaeth Cyfundeb a Choleg cyflwynir Tystysgrif yr Undeb i'r Ymgeisydd yng Nghynhadledd y Cwrdd Chwarter, a chaiff ei gydnabod yn Bregethwr Cynorthwyol.

Cynhwysir enwau'r sydd dan hyfforddiant hefyd yn rhestr y Pregethwyr Cynorthwyol cydnabyddedig sydd yn y *Blwyddiadur*, ond rhoddir seren wrth eu henwau i ddynodi mai Ymgeiswyr ydynt, ac nad ydynt eto wedi eu cydnabod yn llawn.

(O *Flwyddiadur* Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Diweddglo

Sefyll gyda'n gilydd
i baratoi ar gyfer yfory

'Pan fydd manylion y Rhaglen Datblygu yn cael eu cyhoeddi'n llawn, y gobaith yw y byddwn fel Annibynwyr, fel pobl Dduw, yn ymuno ynddi ac yn ei gwneud yn rhaglen *i ni*.

Wedi'r cyfan, Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru yw hon; fe'i lluniwyd ar ein cyfer ni i gyd, nid ar gyfer rhai ohonom.'

Parchg Dewi Myrddin Hughes,
Cadeirydd Panel y Rhaglen Datblygu

Gwaith yr Undeb

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn bodoli i wasanaethu'r eglwysi, i fugeilio'r Cyfundebau, ac i ofalu am y gweinidogion.

Mae hefyd yn ysgogi gweithgarwch ac yn hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn ein plith.

Mae'n cynrychioli'r traddodiad Annibynnol Cymreig yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan cadw mewn cysylltiad cyson â'r cyrff Cristnogol eraill yng Nghymru, yn arbennig Undeb y Bedyddwyr ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Mae'n cydweithredu'n agos â CYTÛN ac â Chyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM - *Council for World Mission*).

CWM

Trwy gefnogaeth hael yr olaf, mae wedi llwyddo i gynnal dwy Rhaglen Genhadol hyd yma, y cyntaf trwy gyflogi Gweithiwr Ieuenctid, a'r ail trwy weithredu Rhaglen AGAPE. Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru yw'r drydedd Raglen i dderbyn cymeradwyaeth a chefnogaeth ein partneriaid o fewn Rhanbarth Ewrop CWM, ac ymddirieolwyr y mudiad o bob rhan o'r byd.

Rhanbarth Ewrop CWM

Y mae pump Eglwys ac Undeb yn perthyn i Ranbarth Ewrop CWM:

- **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (UAC)**
- **Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC)**
- **Y Gynghrair Gynulleidfaol (CF)**
- **Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC)**
- **Eglwys Brotestannaidd yr Iseldiroedd (PKN)**

Mae cyrychiolwyr o'r cyrff hyn yn cyfarfod mewn Pwyllgor Gwaith ddwywaith y flwyddyn, a chynhelir un Cyfarfod Blynyddol.

Cynhelir Bwrdd Crwn unwaith y flwyddyn hefyd. Ynddo, mae'r cynrychiolwyr yn trafod rhaglenni a gweithgarwch ei gilydd.

Y Rhaglen Datblygu

Cafodd y Rhaglen Datblygu ei lansio ym mis Ionawr 2009, ac y mae i ymestyn dros bum mlynedd, hyd ddiwedd 2013. Credwn fod y Rhaglen yn rhoi cyfle i eglwysi Annibynnol Cymru i arbrofi gyda phatrymau o weithredu sy'n gwbl gyson ag

egwyddorion yr Efengyl, ac â'n hegwyddorion traddodiadol fel Annibynwyr. Gellid dweud nad oes, mewn gwirionedd, ddim newydd na chwyldroadol yn y Rhaglen, ond trwy ei gweithredu, cred y Panel a'i rhoddodd at ei gilydd ar ran yr eglwysi ei bod yn cynnig cyfleon ymarferol i ni fedru gwneud gwahaniaeth i'n sefyllfa.

Gan mai undeb o eglwysi Annibynnol yw Undeb yr Annibynwyr, nid yw'n honni unrhyw awdurdod i fedru gwasgu'r Rhaglen ar yr eglwysi, ond gweddi a gobaith pawb sydd wedi gweithio ar lunio'r Rhaglen yw y bydd Annibynwyr Cymru yn dangos menter, ffydd a pharodrwydd i gydweithio, er cynnydd yr eglwysi, er llawenydd i'w haelodau, ac er gogoniant i Dduw.

Mae **Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb**, y Parchg Ddr Geraint Tudur, yn gyfrifol, gyda Phanel y Rhaglen Datblygu, am gyflwyno'r Rhaglen i'r eglwysi. Dylid anfon pob ymholiad ato ef.

Yn y gogledd, mae'n cael ei gynorthwyo gan Mr Dylan Owen, **Swyddog Datblygu Gogledd Cymru**. Bydd Dylan ar gael i gynghori a chynorthwyo'r eglwysi yn y rhan honno o'r wlad, yn ôl eu dymuniad.

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . ei bod yn bosibl cysylltu ag Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb unrhyw amser?

Gellir anfon e-bost at:

geraint@annibynwyr.org

neu ei ffonio ar 07909-976908.

Os dymunwch gysylltu â Thŷ John Penri, gallwch anfon eich e-bost at:

undeb@annibynwyr.org

neu ffonio 01792-795888.

Gellir cysylltu â Dylan Owen trwy anfon e-bost at:

dylan@annibynwyr.org

neu ffonio 07919-318553 (oriau swyddfa yn unig, os gwelwch yn dda).

Oeddech chi'n gwybod . . .

. . . fod Undeb yr Annibynwyr yn cynnal 'Sesiynau Datblygu Sgiliau' i helpu pobl wella eu doniau Cristnogol?

Mae'n bosibl i sesiynau o'r fath gael eu cynnal ar gyfer eglwys unigol neu Gyfundeb. Maent yn ddifyr, yn hwyl, ac yn helpu gyda phroblemau go iawn.

Y math sesiynau sydd wedi eu rhoi hyd yma yw, 'Bugeilio Aelodau', 'Gwrando', 'Cenhadu yn Lleol', 'Gweddïo', 'Beth yw Eglwys Annibynnol?', 'Arwain yn yr Eglwys', 'Creu Gwefan' a 'Defnyddio *PowerPoint*®'.

Os nad ydych yn gwybod beth yw *PowerPoint*®, yna byddai'n syniad da i chwi roi gwahoddiad i dîm yr Undeb i ddod draw i ddangos i chwi!

Panel y Rhaglen Datblygu

Y Cadeirydd:
Parchg Dewi Myrddin Hughes
Clydach

Mr Glyn Williams,
Y Trallwng.
Adran Cyllid

Mrs Carol Evans,
Llangynnwr.
Adran Addysg a Chyfathrebu

Parchg Angharad Griffith,
Dolgellau.
Adran Cenhadaeth
a'r Eglwys Fyd-eang

Mr Eifion Griffiths,
Llandeilo.
Trysorydd yr Undeb

Mr Tom Price,
Porthcawl.
Adran yr Eglwysi a'u
Gweinidogaeth

Mrs Suzanne Davies,
Hermon, Cynwyl Elfed.
Adran Dinasyddiaeth
Gristnogol

Dr Hefin Jones,
Caerdydd.
Wedi ei gyfethol

Parchg Marc Morgan,
Llanbryn-mair.
Adran Teulu

Parchg Ddr Geraint Tudur,
Ysgrifennydd Cyffredinol
yr Undeb

Fersiwn Rhagfyr 2009
(gyda ychwanegiadau)